# Glas

Bwletin misol
Llén natur
Cymdeithas Edward Llwyd
Rhif 201
Tachwedd 2024

**gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**



**Llun Alun Williams**
**Cap Porslen** *(Oudemansiella mucida)*
**25 Medi 2024, Coedwig Gwydyr**

**Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

Cysylltwch â ni trwy **bwletinglas.llennatur@gmail.com**

# Naw nos olau

**Dwi ddim wedi clywed neb yn son am LEUAD Y NAW NOS OLAU yn ystod cyfnod y lleuad fedi ddiweddar. Ydi'r dywediad a'r rhesymau drosto yn mynd yn anghof? Dewch i ni atgoffa ein hunain am ei bwysigrwydd i'n cyndeidiau. Atgofion… rhywyn?**

**Y Lleuad Fedi The Harvest Moon gan Samuel Palmer**



### Atgofion

Defnyddio yn gyson. Rwyf mor hen a cofio nhad a mam yn mynd allan i chwalu stycia ŷd a troi ei tina i'r gwynt yng ngolau y lleuad naw nos olau. **Richard Parry-Hughes**

Mi fydd Gwyn wastad yn defnyddio naw nos olau. Mynytho **Netta Pritchard**

Hyn wedi cael ei drafod yn Iaith 2ail Hydref. Naw nos olau fydda i yn ddeud bob amser Trefor/Mynytho.
**Eleri Rees Roberts**

Naw nos ola, Trefor. **Gwenda Williams**

Yn gybyddus a'r disgrifiad naw nos olau - magwyd ardal Talsarnau, Ardudwy. **Olwen Jones**

Ydi pobl yn dal i ddringo'r Wyddfa dan olau lleuad y naw nos olau i weld yr haul yn codi drannoeth? Cofio gwneud hyn ar ddechrau'r 1970au? **Awen Hamilton**

Arferiad cerdded i ben y Wyddfa ar lleuad naw nos ola. canoedd o bobol yno! **Margaret Ellis**

Rydyn ni wrthi'n ysgrifennu llyfr Cymraeg i blant ar hyn o bryd sy'n archwilio enwau, traddodiadau a straeon gwerin drwy'r tymhorau, gan gynnwys enwau ar gyfer pob lleuad llawn. **Nia Jewell**

Mi fydda fy nwy chwaer ac eraill o'r pentref yn cerdded i fyny yr Wyddfa. **Mary Lloyd Lewis**

Lleuad naw nos ola' dal i fod i mi yma yn Llanberis.
**Chris Rose Thomas**

Y teulu yn son am Lleuad Naw Nos olau pan ni blant yn Rhydymain. **Heulwen Powell**

Bydda fy rhieni yn son am y naw nos ola . Caernarfon a Dyffryn Nantlle. **Eifiona a Gary Glo**

## Yr Hydref

**Dail y coed sy'n araf ddisgyn**
**Lliwiau copr, brown a melyn**
**Dawnsio'n ysgafn ac yn troelli**
**Brigau'r coed sydd yn eu noethni**

**Cyfnas wen y gwlith boreuol**
**Yn berlau llaith a dagreuol**
**Atgof lu o hen ramantau**
**Llithro'n araf lawr ei gruddiau**

**Haul y bore sy'n cynhesu**
**Yr holl ddagrau cawn eu sychu**
**Cysgodion hir sydd fel cewri**
**Natur cudd sydd yn y llwyni**

**Nosweithiau Lloer naw nos olau**
**Codith gerllaw y mynyddau**
**Rhuban tarth ysbrydol arian**
**Daear cynnes yn y lloergan...**

**Diane Jones**

Byddai mam yn son am 'naw nos olau'. Ond diolch am y wybodaeth ddiddorol yma. Lleuad Fedi ddefnyddiais i eleni, gobeithio cofio naw nos olau at flwyddyn nesa, os byw ac iach!

**Nodyn Golygyddol:** mae'n ymddangos mai arferiad y gogledd-orllewin yw cofio a defnyddio y 'naw nos olau'. Map…!!!

### Diffiniad

Dyma mae Wicipedia yn ei ddweud o dan Alban Elfed (term 'gwneud' gan Iolo Morgannwg)

> 'Arferid galw'r lleuad lawn gynta ar ôl cyhydnos yr hydref (22ain o Fedi) yn lleuad fedi (neu leuad gynhaeaf), pryd y ceid y naw nos olau. Byddai'r naw nos olau yn eithriadol o bwysig i ffermwyr ar un adeg oherwydd ei goleuni llachar - bron fel golau dydd am o leia' y 4 noson cyn, ac ar ôl y lleuad lawn ei hun. Roedd hyn yn eithriadol o hwylus at gario'r ysgubau ŷd i'r teisi ac am y byddai'r lleuad yn codi hefo'r machlud gellid dal ati i gario o'r caeau (h.y. cyn dyddiau'r dyrnwr medi) ymhell i'r nos – hyd y wawr pe bai angen.'

Ydi'r 'naw nos olau' (hy. y lleuad llawn/ledlawn yn codi fel mae'r haul yn machlud dros naw niwrnod) yn digwydd yn gyson pob blwyddyn? - gan anghofio am gymylau a ballu wrth gwrs. Gwybodaeth plis. Tablau blynyddol amser machlud v. maint ac amser 'gwawrio'r' lleuad 'sa dda.

**Golygydd**

## Enghreifftiau hen a diweddar

Dyma gofnod gan 'DO' (ond dydi hi ddim yn gwbl eglur os oedd o'n cymryd mantais go iawn o'r nosweithiau golau i 'gwlasu yn yr helm wair'… er mae hi'n swnio felly)

20/10/1953 Ty Uchaf, Padog ■ Cael y gwair heddiw, cario 4 llwyth o dâs wair cae sofl a llwyth o dâs wair rhos isa. Cwlasu yn yr helm wair. Braf, naw nos olau, haf bach Mihangel. **Dyddiadur DO Jones, Padog**



7.54pm 18/9/24 ail hadu cae. Edrych tua'r gorwel.

**Alwen Parry**



## Teithiau Cymdeithas Edward llwyd

**Y wefan a'r tudalen Facebook - un o brif weithgareddau'r Gymdeithas yw'r rhaglen gynhwysfawr o deithiau maes a gynhelir bron pob dydd Sadwrn mewn tri rhanbarth drwy Gymru: Gogledd Dwyrain, Gwynedd a Môn, y De a'r Canolbarth.**

## Pryfed teiliwr hwyr ac uchel

**Gwynt, glaw a niwl ar Moel Eilio heddiw. Ond cannoedd ar gannoedd o bry teiliwr wedi deor ac yn cysgodi (a cymaru) ar y copa. Ar y ffordd i lawr roedd y brain yn troedio'r ffridd a'r caeau yn hela'r cynron, ond dim golwg o'r un aderyn wedi gwledda yn yr unig le efo unrhyw gysgod ar y mynydd cyfan.** **Robin Parry**






Dim ond hanner dwsin o gofnodion pry teiliwr yn **Cymuned** ond dim un hwyrach na mis Medi (bron yn fis Tachwedd erbyn hyn!) a dim un yn agos mor uchel a chopa Moel Eilio. Arwydd efallai o dywydd tyner yn hwyr yn y flwyddyn ac ar lefel uchel. **Golygydd**

### "Copa-gyrraedd"

**Un esboniad posib ydi arferiad rhai pryfed i 'gopa-gyrraedd'. Morgrug ehedog yn 'copa-gyrraedd' hefyd.**

## Labelu a lliwio




Y ferch acw wedi gael hwyl yn lliwio'r trilliw bach heddiw (sori os nad yw'r lliwiau'n gywir!). Allith rwyn helpu hi i orffen y labelu tybed!? Diolch.

**B=1 ac L=4. Wyt ti'n cytuno. Oeddet ti bron yna…. Gwych iawn "ferch'cw". Rydym ni fel tîm GLAS yn falch iawn o weld y math hwn o ymdrech - gwych!**

# Mwrllwch

**Bwrw glaw ac yn 18.5 gradd yn Nolgellau heddiw** [17 Hydref 2024]. **Ydw i'n iawn i ddweud bod yr aer cynnes uwchben yr Afon Wnion oer yn cyddwyso? Ai hynny sy'n digwydd yma?** **Nia Edwards**



Oerni cymharol yr afon yn cyddwyso awyr llaith uwch ei ben? **Golygydd**

Dyma fy marn i, Nia: Yn dechnegol, dyma ffurfio niwl anweddu: cyswllt neu ffrithiant rhwng dau fàs, un yn oer iawn (aer) a'r llall ychydig yn gynhesach (dŵr). Mae hyn yn achosi i'r anwedd sy'n cael ei ryddhau o'r dŵr ddirlenwi'r aer oer gwaelodol a'i gyddwyso.

**Dwyryd Williams**

Byddai fy nhad yn galw hyn yn fwllwch gwres. Mae'n jôc teuluol gennym i alw unrhyw niwl yn fwllwch gwres! Dwi'n credu mai'r gair Mwrllwch sydd yma.

**Dyfrig Berry**


GPC CYM

1/1 **mwrllwch** (1989)

**mwrllwch**

[?cf. *mwllwch*]


*eg.* a hefyd fel *a.*

Niwl a mwg yn gymysg, tarth, tawch, mygdarth, caddug, tywyllwch, hefyd yn *ffig.*; niwlog, mygdarthol:

*smog, fog, mist, vapour, murkiness, gloom, also fig.; foggy, vaporous.*

Gw. hefyd morllwch.

Llun a sylw Meleri Davies Jones


Llynnoedd Cregennan ddoe

Hefyd ar 17 Hydref-


Diddorol - sylwais ar yr un peth uwchben yr Afon Dwyfor wrth y bont yn Llanystumdwy yn hwyr pnawn ddoe. **Awen Hamilton**

Sylwais fod yr un peth uwchben y Brennig yn Tregaron ddoe. Roedd yr aer yn gynnes iawn a roedd yn bwrw glaw. **Eluned Stalham**

Mae'n gynnes ers rhai dyddiau tydi, Dyffryn Nantlle. Roedd 'na ystlymod yn hela yn y glaw neithiwr, mae'n rhaid bod na ddigon o fwyd yn hedfan er bod hi'n bwrw. **Bethan Moseley**

Weles i'r un peth ar yr Afon Teifi, Cilgerran ar Dydd Mercher 18 °C - 16 Hydref. Ni pharodd y niwl yn hir iawn - rhyw 10 muned yn unig. **Raphaellefieldhouse Artist**

NID gwrthdroad tymheredd oedd o. **Golygydd**




## Sylwadau ar Mwrllwch

Mae 'niwl' yn ffurfio mewn cyfaint o aer ar y gwlithbwynt. Mae'r gwlithbwynt yn ddibynnol ar dri ffactor:

**a)** **Lefel lleithder yr aer**;
**b)** **Pwysedd y cyfaint aer**;
**c)** **Tymheredd y cyfaint aer**.

Yn yr achos yma yr ydw i'n anwybyddu effaith pwysedd.

Os yw cyfaint o aer, yn cynnwys lleithder, yn oeri pan mae yn cyrraedd tymheredd y gwlithbwynt mae'r lleithder yn cyddwyso ac yn ffurfio niwl. Mae'r dafnau niwl yn ffurfio ar ronynnau (ee. paill) yn yr awyr. [Heb y gronynnau hyn gellir oeri'r cyfaint aer o dan y gwlithbwynt gan ffurfio aer gorddirlawn] Os yw lefel lleithder yr aer yn uchel y mae tymheredd y gwlithbwynt yn uwch ac i'r gwrthwyneb. Mae'n werth nodi mai proses 'ddu a gwyn' ydi'r cyddwyso yma, dim proses graddol, gan nodi ceir adborth negyddol oherwydd bod gwres yn cael ei ryddhau fel mae'r lleithder yn cyddwyso.

***Beth felly sydd yn digwydd uwchben yr afon Wnion?***

Dyma'r ffactorau i'w cysidro:

Tymheredd 18.5°C - Roedd hi'n 'bwrw glaw' - felly mae disgwyl i'r lleithder yn yr awyr fod yn gymharol uchel a thymheredd dŵr yr afon fod yn llai na 18.5°C.

Mae un peth yn bendant sef bod tymheredd yr aer uwchben yr afon yn îs na'r gwlithbwynt.

Yn fy marn i cawn gyfuniad o leithder uchel a thymheredd cymharol isel yma.

**a)** Y disgwyl ydi y buasai'r afon a'r coed / tyfiant (tamp – cofiwch y glaw) o gwmpas yr afon yn anweddu ac yn codi'r lefelau lleither yn lleol gan gofio y buasai'r anweddu yma yn gostwng tymheredd y coed a'r tyfiant.

**b)** Buasai cyfaint aer uwchben yr afon yn colli gwres i'r afon ac i'r tyfiant, ac o ganlyniad yn oeri.

Canlyniad hyn ydi ffurfio niwl yn lleol uwchben yr afon.

**Hywel Madog**

## Crëyr mawr gwyn ar fin ein cyrraedd…



6 Crëyr mawr gwyn, Porthmadog 7.10.2024 **Gwilym A Roberts**



Dyma'r garan (*common crane* / Grus grus) yn uchel dros y tŷ yn Waunfawr gynna. **Rhys Jones**

Mae'r crehyrod yn llwyddiannus iawn ar hyn o bryd. Hanner canrif yn ôl dim ond y crëyr glas oedd yn nythu yng Nghymru. Mi gyrhaeddodd y crëyr bach o'r de tua 30 mlynedd yn ôl ac mae i'w weld yn gyffredin ar bob aber a thir corsiog arfordirol ac yn nythu mewn coed tal cyfagos gyda'r crëyr glas. Ond rwan mae'r crëyr mawr (llun Elfyn) yn ein cyrraedd yn amlach ac amlach a chrëyr y gwartheg heb fod ymhell ar ei ôl. Ond mae yna fwy… mae'r garan - nid creyr go iawn - hefyd ar ei ffordd (welodd Rhys Jones un yn hedfan dros ei gartref yn Waunfawr ar y 16 Medi eleni - ar ei ffordd i Iwerddon efallai lle mae nhw eisoes yn nythu). Ac mae yna amal i grëyr arall ar riniog ein drws yn aros eu cyfle pan fydd yr hinsawdd yn fwy ffafriol fyth iddynt.

Ond rhag i ni wirioni gormod, roedd rhain i gyd yn nythu yma ers talwm nes i ffasiynau hetiau merched achosi eu tranc. Neu yn achos y garan, newyn y werin a chyfle am ginio rhad. A does wybod beth fydd pendraw Newid Hinsawdd…

Mi ges i 9 crëyr mawr ar y cyfri dwytha (webs/BTO) 20/10/24. Roedd 2 reit i fyny'r Ddwyryd wrth Pont Briwet.

Dwi'n siwr fod Elfyn wedi cyfri 15 o'r cob ddechrau'r mis hefyd. **Rhys Jones**

## Pont Garreghylldrem

**Dim dyddiad ond llun cofiadwy** - *(Moelwyn.*

***No date, but what a fabulous photo)*** **Tom Jones-Parry**

Pont Garreghylldrem, yna o hyd! **Aled Jones**



Tybed o lle daeth yr enw. **Ellen Edwards**

O'r graig uwch ei phen. Mae trem frawychus arni, yn arbennig os y ceisiwch ei dringo! **AJ**

Y graig serth ddychrynlyd gerllaw, wedi rhoi ei henw i'r fferm, yn tarddu o'r enw llai barddonol 'Carreg Alltdrem' (onid oes yna 'Tremallt' ymhob pentref yng Ngwynedd?) **Golygydd**

*Great image. That's pont gareg hylldrem on the back road between Nantmor and Llanfrothen. Looks so different without all the trees that now hide the view.* **Gary Brindle**

**Llun Ellen Edwards**



No concrete or steel just lime mortar and stone on stone on a wooden arch former! **John Ellis-Jones**

Yr olygfa wrth sefyll ar y bont **EE**



*The view today* **GB**






# BYWYD GWYLLT MYNYDD ETNA (SISILI)





**llaethwyg yr Etna ■ Spino Santo ■ astragalo dell'Etna**
*(Astragalus siculus)*



**sebonllys yr Etna ■ saponaria dell'Etna**
*(Saponaria sicula)*



**pinwydden Corsica ■ pino nero calabrese ■ pino corsicano**
*Pinus laricio*

**"Pabell" wedi'i wneud gan siani flewog ymdeithiwr y pinwydd**
*Thaumetopoea pityocampa*



**banadl yr Etna ■ ginestra dell'Etna**
*(Genista aetnensis)*



**rhosynau gwyllt** *Rosa canina*



**Pren melyn Etna ■ Crespino dell'Etna** *(Berberis etnea)* [?]

## VALLE DEL BOVE




## CRATER ORCHOL



## Y FFORDD I FYNY
(eitha anodd)



## Y FFORDD I LAWR
(sydyn ofnadwy!)



## Rhwng Plas a Gwesty - y daith

**Hen lun ar Lyn Mwyngil ger Dolgellau** *- An old Photo on Tal-y-Llyn near Dolgellau.* **Barry Jennings**

**Gwesty Tynycornel** [sic.] **- mae graffiti cerfiedig o bysgod-troffi a ddalwyd yn y llyn dros y ganrif ddiwethaf a mwy i'w gweld ar lechi'r wal tu allan.**

**Hefyd mae gennym yn ein meddiant rhodd gan gyn-berchennog y gwesty o lyfrau ymwelwyr (pysgotwyr) a lanwyd yn y 90au sydd ar hyn o bryd yn cael sylw un o drawsgrifwyr y Tywyddiadur sef Einir Thomas.**




*August 9th* [1872] *... at 7 o`clock this morning we hardly could make up our minds to go to Talyllyn as it was such a bright morning; however we started about 8 o'clock and I walked all the way there reaching Tyn y Cornel at 945.*

***The Sporting Diaries of CEM Edwards***

**Archifdy Gwynedd Dolgellau** (trawsgrifiwyd i'r Tywyddiadur)

Dwy awr a thri chwarter i gerdded o Dolserau (cyrion Dolgellau, ar yr afon Wnion) i Tyn y cornel - a diwrnod o bysgota wedyn, tan 6yh! Beth bynnag oedd Edwards, mi oedd o'n ffit (ac mae'n debyg y cyrhaeddodd yn ôl yn Dolserau i 'newid i ginio'!).




1. **Saeth du: y daith fel yr hed y fran...**
2. **Manylyn o'r llwybr troed mae nhw'n argymell heddiw**
3. **Dyma'r daith heddiw ar droed yn ôl yr app. SatNav.... 3awr 11munud!**

Beth sydd wedi digwydd felly - oedd Edwards yn cerdded cymaint yn well ganrif a hanner yn ôl, ynteu oedd ganddo lwybr ei hun sydd wedi mynd yn anghof (i'r app. o leiaf). Cymorth lleol plîs... oes yna ffordd gynt trwy Tabor? **Golygydd**

## Barcud Bwlch Nant yr Arian



**Llun: Greta Hughes.**
**Barcud coch yn y niwl, Bwlch Nant yr Arian, 28ain Hydref, 2024.**

## Pysgota yn y chwyn dŵr!



**Dwi ddim yn meddwl fydd Glas y Dorlan yma yn cytuno gyda cynnig y Bwrdd iechyd i gael llysiau gyda pysgodyn!!**

Glas y Dorlan ifanc yn *"Big Pool Wood"* Dydd gwener, yn cael trafferth cael y 'sgodyn bach lawr y lon goch heb y chwyn. **Ann James**

## Derbyn Glas

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Cysylltwch gyda ni:
bwletinglas.llennatur@gmail.com

Glas

Llên natur Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Edward Llwyd

Cyfres Posteri Glas

# Rhydyddion Hirgoes Cymru

MAE EU PIG YN AMLWG MWY NA'R PEN

## Gylfinir *Numenius arquata*



1

Pig crwm tuag i lawr

M ! Tebyg i 2

## Coegylfinir *Numenius phaeopus*

Streipen goron welw



2

Swn seithnod nodweddiadol

M ! Tebyg i 1

## Rhostog gynffonddu *Limosa limosa*



4

Pig syth

Plu plaen, yn y gaeaf

M ! Tebyg i 5

## Pioden fôr *Haematopus ostralegus*



3

Coler wen yn y gaeaf

Pig melyngoch

M

## Rhostog gynffonddu *Limosa limosa*



4

Plu ar adeg nythu - o Chwefror i Orffennaf

## Rhostog gynffonfraith *Limosa lapponica*



5

! Tebyg i 4

M

Plu'r gaeaf

Pig crwm tuag i fyny

## Rhostog gynffonfraith *Limosa lapponica*



5

Plu ar adeg nythu - o Chwefror i Awst

**Lluniau oedolion**
*Wikimedia Commons*

**Maint y corff:**
**M Mawr C Canolig B Bach**

**! Tebyg, hawdd cymysgu rhywogaethau**